# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y CYNGOR SEREMONÏOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 20 HYDREF 2016 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd D H Hopkins (Arglwydd Faer) yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | A C S Colburn |
| D W Cole | A M Cook | N J Davies |
| C R Doyle | W Evans | E W Fitzgerald |
| R Francis-Davies | J A Hale | J E C Harris |
| T J Hennegan | C A Holley | P R Hood-Williams |
| B Hopkins | D H Hopkins | L James |
| Y V Jardine | M H Jones | A J Jones |
| S M Jones | J W Jones | E T Kirchner |
| M B Lewis | A S Lewis | C E Lloyd |
| P Lloyd | K E Marsh | P N May |
| P M Meara | G Owens | D Phillips |
| C L Philpott | T H Rees | I M Richard |
| R V Smith | R C Stewart | D G Sullivan |
| G J Tanner | C M R W D Thomas | L G Thomas |
| M Thomas | D W W Thomas | L J Tyler-Lloyd |
| L V Walton | T M White | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw, S E Crouch, J P Curtice, A M Day, P Downing, V M Evans, F M Gordon, D J Lewis, P M Matthews, J Newbury, C Richards, P B Smith, R J Stanton a/ac C Thomas

69. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

70. **TRYCHINEB ABERFAN - HANNER CANMLWYDDIANT**

Cyfeiriodd yr Arglwydd Faer at hanner canmlwyddiant y drychineb yn Aberfan a laddodd 144 o blant ac oedolion, yn bennaf yn Ysgol Iau Pantglas. Bydd yr hanner canmlwyddiant ddydd Gwener 21 Hydref 2016.

Safodd pawb a oedd yn bresennol am funud o ddistawrwydd i ddangos cydymdeimlad a pharch.

71. **FFILMIO CYFARFODYDD Y CYNGOR**

Cynigiodd yr Arglwydd Faer y dylid caniatáu i'r cyfryngau a oedd yn bresennol ffilmio'r trafodion a chytunwyd i hyn.

## 72. CYFLWYNO RHYDDID ER ANRHYDEDD DINAS A SIR ABERTAWE I CHRIS COLEMAN.

Croesawodd yr Arglwydd Faer, Arglwydd Raglaw, Uchel Siryf, arweinwyr dinesig, gwesteion nodedig, aelodau'r cyngor a Chris Coleman i gyfarfod seremonïol o'r cyngor.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at benderfyniad yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2016 (cofnod 46) lle gwnaeth y cyngor bleidleisio i roi rhyddid er anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Chris Coleman i gydnabod ei gyfraniad at chwaraeon ac Abertawe, yn benodol ei arweinyddiaeth a'i lwyddiant gyda thîm pêl-droed Cymru.

Siaradodd arweinydd yr wrthblaid fwyaf ac arweinwyr y grwpiau gwleidyddol eraill o blaid y cynnig.

**PENDERFYNWYD** rhoi rhyddid er anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Chris Coleman i gydnabod ei gyfraniad at chwaraeon ac Abertawe, yn benodol ei arweinyddiaeth a'i lwyddiant gyda thîm pêl-droed Cymru.

Yna cyflwynodd yr Arglwydd Faer y Sgrôl Rhyddid er Anrhydedd i Chris Coleman, gan roi rhyddid Dinas a Sir Abertawe iddo.

Ymatebodd Chris Coleman trwy ddiolch i'r cyngor am yr anrhydedd.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.35 pm

**CADEIRYDD**